Drwy e-bost i bob ysgol a choleg yng Nghymru

25 Hydref 2019

Annwyl gydweithiwr

Goruchwylio cyfres arholiadau TGAU Gaeaf 2019/20

Cyn cyfres arholiadau'r gaeaf (Tachwedd 2019 ac Ionawr 2020), rwy'n ysgrifennu at bob ysgol a choleg i dynnu sylw at wybodaeth bwysig i'w helpu i gyflwyno'r gyfres arholiadau'n llwyddiannus.

Arholir cyfres y gaeaf mewn dwy sesiwn, ym mis Tachwedd ac ym mis Ionawr. Byddwn yn monitro'r proses o osod ffiniau gradd ar gyfer pob arholiad yn y gyfres hon er mwyn sicrhau bod y safonau priodol yn cael eu cynnal.

Cyfres Tachwedd 2019

Mae pedwar TGAU yn cael eu harholi ym mis Tachwedd: Saesneg Iaith, Mathemateg - Rhifedd, Mathemateg a Chymraeg Iaith. Fel ym mis Tachwedd 2018, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all gael eu cofrestru ar gyfer yr arholiadau hyn.

Cofrestriadau arholiadau mis Tachwedd

Mae data cofrestriadau dros dro a gesglir gan CBAC yn rhoi arwydd cynnar i ni o batrymau cofrestriadau ar gyfer pob cyfres arholiadau. Rydym yn defnyddio'r data yma i helpu i gynllunio ein dull o oruchwylio'r dyfarniad ac o ddehongli'r canlyniadau.

Byddwn yn cyhoeddi ystadegau swyddogol ar gyfer cofrestriadau mis Tachwedd am 09.30am ddydd Iau 5 Rhagfyr 2019. Byddwch yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon yn yr adran Ymchwil ac ystadegau ar ein gwefan.

Cyfres Ionawr 2020

Ym mis Ionawr 2020, bydd un uned TGAU Llenyddiaeth Saesneg ac un uned TGAU Llenyddiaeth Gymraeg yn cael eu harholi. Gellir hefyd cyflwyno cydrannau unigol Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch a Chyfnod Allweddol 4 i'w cymedroli

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

a'u dyfarnu. Bydd rhai unedau yn y pynciau TGAU sydd heb eu diwygio, fel TGCh ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, hefyd ar gael. (Dyfernir y TGAU newydd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y tro cyntaf yn ystod Haf 2021).

Diogelwch Arholiadau

Mae ysgolion a cholegau yn chwarae rôl allweddol wrth gynnal diogelwch papurau arholiad ac mae'n bwysig bod eich staff yn dilyn y rheolau a nodir gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) ar gyfer diogelwch papurau, a'r rheolau ar gyfer cynnal arholiadau. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn yr adran Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal arholiadau ar wefan y CGC. Mae gan wefan CBAC ganllawiau defnyddiol hefyd ar beth i'w wneud os oes amheuaeth bod unrhyw achos o dorri diogelwch.

Mae gan CBAC ganllawiau ar Gynllunio wrth gefn sy'n darparu gwybodaeth am beth i'w wneud os amherir ar arholiadau mewn unrhyw ffordd. Rydym yn cynghori bod eich ysgol/coleg yn ymgyfarwyddo â chanllawiau CBAC a'r CGC ar gynllunio wrth gefn a sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Cyhoeddi canlyniadau

Bydd myfyrwyr yn derbyn eu canlyniadau ar gyfer arholiadau TGAU mis Tachwedd eleni ar **ddydd Iau 16 Ionawr2020**. Bydd ysgolion a cholegau yn cael y canlyniadau y diwrnod cynt, ddydd Mercher 15Ionawr 2020.
Bydd myfyrwyr yn derbyn eu canlyniadau ar gyfer arholiadau TGAU ac unedau a gymerir ym mis Ionawr ar **ddydd Iau 5 Mawrth 2020**. Bydd ysgolion a cholegau yn cael y canlyniadau y diwrnod cynt, ddydd Mercher 5 Mawrth 2020.

Mae'r canlyniadau'n cael eu rhyddhau i'r ysgolion ddiwrnod cyn diwrnod y canlyniadau er mwyn rhoi amser i'r trefniadau gweinyddol gael eu cwblhau cyn diwrnod y canlyniadau. Rydym yn atgoffa ysgolion a cholegau na ddylid eu rhannu ag unrhyw un ac eithrio'r staff sy'n hanfodol i drefnu rhyddhau canlyniadau i fyfyrwyr, neu i unrhyw unigolyn neu sefydliad y tu allan i'ch ysgol neu goleg, tan ddiwrnod y canlyniadau. Mae'r canllawiau hyn hefyd ar gael yn yr adran cyhoeddi canlyniadau ar wefan y CGC.

Rhagor o wybodaeth

Rydym yn rhoi diweddariadau rheolaidd i ysgolion a cholegau ar y cymwysterau rydym ni'n eu rheoleiddio drwy ein cylchlythyr, '*Y Llechen*' . Gallwch gofrestru i dderbyn hwn o'n gwefan.

Mae gan yr adran Arholiadau 360 ar ein gwefan wybodaeth ar gyfer rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r gyfres arholiadau. Mae crynodebau o'r broses arholiadau, sut mae papurau arholiad yn cael eu gosod a sut maen nhw'n cael eu marcio. Mae amrywiaeth o gardiau post defnyddiol ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan, sy'n ymdrin â phrif nodweddion y TGAU newydd a Bagloriaeth Cymru.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto pan fydd yr arholiadau wedi'u cwblhau. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol i chi ei chael yn y dyfodol, cysylltwch â ni.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr